
Gweithredu mesurau i'w gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â chanllawiau rhyngwladol ar gyfyngu cysylltiad â meysydd electromagnetig (EMF)

YMGYNGHORIAD PELLACH:

Dyddiad Cyhoeddi: 5 Hydref 2020

Dyddiad Cau ar gyfer derbyn Ymatebion: 16 Tachwedd 2020

1. Trosolwg

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, mae Ofcom wedi cyhoeddi datganiad sy'n nodi ei benderfyniad i ymgorffori'r cyfyngiadau yng Nghlanllawiau ICNIRP yn ffurfiol er mwyn diogelu'r cyhoedd rhag dod i gysylltiad ag EMF mewn awdurdodiadau sbectrwm.¹

Rydym nawr yn symud ymlaen i roi'r penderfyniadau a nodir yn y datganiad ar waith. Bydd hyn ar y dechrau yn golygu cynnwys yr amod EMF newydd ym mhob trwydded ym mhob dosbarth trwydded sy'n awdurdodi defnyddio offer radio ar bwerau sy'n uwch na 10 Wat EIRP. Bydd hefyd yn golygu diwygio rheoliadau eithro trwyddedau ar sail fesul achos fel sy'n briodol yn y dyfodol, i gynnwys amod sy'n gysylliedig ag EMF.

Fel cam cyntaf yn y broses hon, rydym yn gwahodd rhanddeiliaid i roi adborth ar y newidiadau drafftio penodol rydym wedi'u gwneud i eiriau'r amod trwydded EMF a'n 'Canllawiau ar Gydymffurfio a Gorfodi EMF' a gyflwynir yn y ddogfen hon.

Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

- Rydym yn cynnig defnyddio'r fersiynau wedi'u diweddarau o'r amod trwydded EMF a'r 'Canllawiau ar Gydymffurfio a Gorfodi EMF' sydd yn atodiadau 1 a 2 i weithredu ein penderfyniadau polisi yn natganiad Hydref 2020.
- Ar ben hynny, rydym yn cynnig cyhoeddi cyfrifiannell EMF ar-lein a fydd yn galluogi llawer o ddefnyddwyr sbectrwm i wirio'n hawdd a yw defnyddio eu hoffer radio yn debygol o gydymffurfio â therfynau cyhoeddus cyffredinol ICNIRP.

- 1.1 Yn ein hymgyngoriad ym mis Chwefror 2020, roeddem yn cynnig cynnwys amod sy'n gysylltiedig ag EMF ym mhob awdurdodiad sbectrwm sy'n awdurdodi defnyddio offer radio ar bwerau sy'n uwch na 10 Wat EIRP. Roeddem hefyd wedi cyflwyno fersiynau drafft o'r amod trwydded EMF a 'Chanllawiau ar Gydymffurfio a Gorfodi EMF'.
- 1.2 Ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ofalus, rydym wedi cyhoeddi datganiad (datganiad Hydref 2020) yn cadarnhau ein penderfyniad polisi i gynnwys yr amod trwydded EMF ym mhob awdurdodiad sbectrwm perthnasol. Gwnaethom nifer o benderfyniadau eraill hefyd gan gynnwys mewn perthynas â chwmpas amodau sy'n gysylltiedig ag EMF.
- 1.3 Rydym hefyd wedi gwneud nifer o newidiadau drafftio i eiriau'r amod trwydded EMF ac i'n 'Canllawiau ar Gydymffurfio a Gorfodi EMF' i ystyried y sylwadau a wnaed gan y rheini a ymatebodd i ymgynghoriad mis Chwefror 2020. Mae'r newidiadau hyn yn cael eu trafod yn fanwl yn natganiad Hydref 2020.
- 1.4 Yng ngoleuni'r newidiadau drafftio rydym wedi'u gwneud i eiriau'r amod trwydded EMF ac i'n 'Canllawiau ar Gydymffurfio a Gorfodi EMF', rydym o'r farn ei bod yn briodol rhoi cyfle

¹ Rydym yn galw'r terfynau hyn yn 'derfynau cyhoeddus cyffredinol ICNIRP'.

pellach i randdeiliaid roi adborth ar fanylion y newidiadau drafftio hyn cyn i ni ddechrau gweithio i gynnwys yr amod EMF mewn trwyddedau.

- 1.5 Ar ben hynny, rydym yn cyhoeddi fersiwn treial o gyfrifiannell EMF ar-lein ar ein gwefan. Bydd y gyfrifiannell yn galluogi nifer o drwyddedeion, gosodwyr a defnyddwyr i wirio'n hawdd a yw'r defnydd o'u hoffer radio yn debygol o gydymffurfio â therfynau cyhoeddus cyffredinol ICNIRP, ar sail rhai tybiaethau ceidwadol. Byddem hefyd yn croesawu adborth gan randdeiliaid ar y gyfrifiannell hon. Rydym yn disgwyl cyhoeddi fersiwn terfynol o'r gyfrifiannell hon yn ystod yr un amser â phan fyddwn yn cyhoeddi fersiynau sydd wedi'u diweddarau o'n hamod trwydded a'r 'Canllaw ar Gydymffurfiaeth a Gorfodi EMF' (fel y bo'n briodol), yn dilyn ymgynghoriad pellach.
- 1.6 Byddwn yn ymgynghori tan 16 Tachwedd 2020.
- 1.7 Byddwn wedyn yn adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ac yn ystyried a ydy hi'n briodol i wneud unrhyw ddiwygiadau neu eglurhad pellach i eiriau'r amod trwydded EMF ein 'Canllawiau ar Gydymffurfio a Gorfodi EMF' a/neu ein Cyfrifiannell EMF ar-lein.
- 1.8 Ar ôl gwneud hyn, byddwn yn:
 - cyhoeddi dogfen ar ein gwefan a fydd yn rhoi sylw i unrhyw sylwadau rydym wedi'u cael mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac yn cynnwys fersiynau wedi'u diweddarau o'n hamod trwydded EMF, 'Canllawiau ar Gydymffurfio a Gorfodi EMF' a'n cyfrifiannell EMF;
 - ar ôl cyhoeddi'r ddogfen hon, byddwn yn dechrau'r broses o amrywio'r holl drwyddedau o fewn pob dosbarth trwydded sy'n awdurdodi offer radio i drosglwyddo ar bwerau uwchlaw 10 Wat EIRP, yn unol â'r weithdrefn yn Atodlen 1 i Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, ac fel yr esbonnir yn Adran 6 datganiad Hydref 2020.